# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 2) 2024** | Autumn Term (Half Term 2) 2024



## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Hoffwn ddiolch i'n plant bendigedig am eu perfformiadau gwych yn ein cyngherddau Nadolig diweddar. Rwyf mor falch o bob un ohonynt. Hoffwn ddiolch i chi rieni am eich cefnogaeth ddiflino i'n hysgol eleni. Mae'r staff a minnau wir yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad. Mae'r ysgol wedi bod yn brysur gyda llawer o weithgareddau hwyliog yn ystod mis Rhagfyr a hoffwn ddiolch i'n CRhA gwych am eu cymorth.**

**Gobeithio y cewch chi i gyd Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda ac iachus.**

*I would like to thank our wonderful children for their excellent performances in our recent Christmas concerts. I am so proud of each and every one of them. I'd also like to thank all parents and guardians for your unwavering support of our school this year. The staff and I genuinely appreciate your cooperation. The school has been busy with many fun activities during December and I would like to thank our brilliant PTA for their help with these events.*

*I hope you all have a very merry Christmas and a happy and healthy new year.*

Nadolig Llawen

SIARTER IAITH Y Wobr Aur!

# Newyddion
# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod








## Cyngor Eco

**Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur yn cydlynu'r prosiect o blannu'r holl fylbiau cennin pedr a anfonwyd i mewn gan ein rhieni gwych. Cafodd pob disgybl yn yr ysgol a Tedi Twt gyfle i blannu o leiaf un bwlb cennin pedr ac rydym yn gyffrous iawn i weld arddangosfa gwych o'n blodyn cenedlaethol yn y gwanwyn.**
**Mae'r Cyngor Eco hefyd wedi bod yn brysur yn cydlynu'r prosiect Rags2Riches. Canlyniad y prosiect oedd ein bod wedi llwyddo i gasglu ac ailgylchu 250.9kg o ddillad a chael £67.73 am y dillad hynny. Bydd y dillad yn cael eu hanfon i Wcráin i gefnogi'r rhai mewn angen. Diolch yn fawr am eich holl gefnogaeth a gobeithiwn fod hyn wedi bod o gymorth i lawer ohonoch i glirio cyn y Nadolig!**

*The Eco Council have been busy coordinating the project of planting all of the daffodil bulbs sent in by our wonderful parents. Every pupil in the school and Tedi Twt had the opportunity to plant at least one daffodil bulb and we are really excited to see our beautiful national flower in bloom.*
*The Eco Council have also been busy coordinating the Rags2Riches project. The outcome of the project was that we managed to collect and recycle 250.9kg of clothes and were paid £67.73 for those clothes. The clothes will be sent to Ukraine to support those in need. 'Diolch yn fawr' for all your support and we hope this helped many of you to have a much needed pre-Christmas clear out!*

# Defnyddiwch eich Cymraeg y Nadolig hwn...

## Say it in Cymraeg this Christmas...

Rhowch gynnig ar y geiriau Cymraeg yma!
Have a go at these Welsh Christmas words!

### Y Dreigiau

| | | |
|---|---|---|
| Father Christmas | Siôn Corn | Shaun Kohrn |
| Snowman | Dyn Eira | Deen Eyrah |
| Merry Christmas | Nadolig Llawen | Nah-doll-eeg Lla-when |
| Snowflake | Pluen Eira | Plee-ehn Eyrah |
| Present | Anrheg | Ann-rheg |
| Reindeer | Carw | Cah-roo |



DREIGIAU
YSGOL GYMRAEG GILFACH FARGOD

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch Deian a Loli a chloch y Nadolig'**
Watch Deian a Loli a chloch y Nadolig



**Dywedwch "Nadolig Llawen"** Say "Nadolig Llawen" to a friend




**Canwch gân "Dymunwn Nadolig Llawen"**
Sing along to "Dymunwn Nadolig Llawen"





**Dawnsiwch i gân Nadolig Llawen i chi gan Mei Gwynedd**
Dance along to "Nadolig Llawen i chi" by Mei Gwynwedd





**Chwaraewch gêm Snap y Nadolig**
Play snap y Nadolig




**Ewch am dro i ffeindio pethau coch** / *Go for a walk to find red things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Newyddion Dosbarth / Class News





**Dosbarth Branwen**
*Meithrin / Nursery*

Roedd Dosbarth Branwen wir yn gyffrous i ymweld â Siôn Corn wythnos diwethaf. Dwedodd ef roedd POB UN ohonyn ni wedi bod yn dda eleni! Cafon ni diwrnod 'messy play' Nadolig yn y dosbarth hefyd. Roedd toes cwci, reis i greu dynion eira, gêm snap mewn eira a llawer o bethau cyffrous arall. Fe ddysgon ni gyd Stori'r Geni trwy Pie Corbett a chreu glôb eira i werthu yn y ffair hefyd. Am hanner tymor prysur!
Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi gyd!

*Dosbarth Branwen were very excited to visit Siôn Corn last week. He said we had ALL been good this year! We also had a Christmas 'messy day' in class. There was cookie dough, rice to create snowmen, a snap game in snow and many other exciting things. We all learned the Nativity story through Pie Corbett and created our own snow globe to sell at the Christmas fair. What a busy half term! Merry Christmas and a happy new year to you all!*

**Dosbarth Dwynwen**
*Derbyn/1/2 / Reception/1/2*

I ddathlu'r ŵyl, aethom ni i ymweld â Siôn Corn yn mharc Treftadaeth y Rhondda. Cafon ni ddiwrnod i'r brenin! Rydyn ni hefyd wedi bod yn brysur yn ysgrifennu Stori'r Geni, ymchwilio siapiau 2d a chreu nwyddau Nadolig! Yng nghanol hwn i gyd, roedd 2 berfformiad gwych o'r sioe Nadolig gyda phawb yn trio'u gorau glas! Da iawn chi!

*To celebrate the festive season, we visited the Rhondda Heritage Park to see Father Christmas. We had a wonderful time and even got to travel in the special lift! We have also been busy writing the Nativity, researching 2d shapes and creating Christmas crafts for the produce fair! In the middle of all this, we even had time to perform 2 fantastic Christmas shows! Everyone tried their very best - Da iawn chi!!*

# Newyddion Dosbarth / Class News

## Dosbarth Gelert
*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**I ddathlu'r Nadolig, rydym wedi canolbwyntio ar gynllunio a chreu ein cynnyrch Nadolig i'w werthu yn y Ffair Nadolig. Defnyddiwyd ein sgiliau rhifedd a digidedd trwy ymchwilio i brisiau'r cynhwysion a chyfrifo'r prisiau i bennu'r archfarchnad rataf (Morrison's oedd y rhataf!), yna fe wnaethom bwyso'r holl gynhwysion i greu ein cynnyrch terfynol – cwci mewn a jar! Cawsom gyfle i flasu'r cwcis ymlaen llaw - roedd yn flasus iawn! Yn ogystal â hwn i gyd, buom yn ymarfer perfformio "Jingle Bells" ar yr iwcalili fel rhan o'n sioe Nadolig, a gwnaeth y plant perfformio'n wych. Da iawn i chi gyd!**

*To celebrate the festive season, we have been focusing on planning and creating our Christmas product to sell in the Christmas Fayre. We utilized our numeracy and researching skills by researching prices of the ingredients and calculating the prices to determine the cheapest supermarket (Morrison's was the cheapest!), we then weighed all the ingredients to create our final product - cookie mix in a jar! We even had a taste test beforehand - it was delicious! In addition to all of this, we practiced performing "Jingle Bells" on the ukuleles as part of our Christmas show, and the children performed fantastically. Da iawn i chi gyd!*




## Dosbarth Bendigeidfran
*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*

**Yn ystod yr hanner tymor hwn, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ein sgiliau fel entrepreneuriaid ifanc. Yn ystod y broses cynllunio, dylunio a chreu, rhoddwyd pwyslais ar gostau ac elw a cholled mewn busnes. Yn ogystal â hwn i gyd, roedd ymarferion am ein sioe Nadolig! Roedd pawb wedi perfformio'n wych ac rydyn ni gyd yn falch iawn. Da iawn i chi gyd!**

*During this half term, we have been focusing on our skills as young entrepreneurs. Throughout the planning, designing and creating process, emphasis was placed on costs and profits and losses in business. In addition to all this, there were rehearsals for our Christmas show! Everyone performed excellently and we are all very proud. Da iawn i chi gyd!*

# Newyddion Dosbarth / Class News



**Canolfan Gwenllian**
*Amrywiol / Various*

**Dyma ddiwedd ein tymor yng Nghanolfan Gwenllian! Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yn datblygu ein sgiliau llafar ac mae ein hyder ni wedi mynd o nerth i nerth. Rydym ni wedi cael llawer iawn o hwyl wrth weithio trwy nifer fawr o themâu. Dysgon ni sut i ddisgrifio ein hunain a'n teulu, trafod yr ardal leol, a sut i archebu a phrynu bwyd.**
**Cawson ni hwyl yn creu pitsa a gwnaethon ni hyd yn oed cyflwyno rhagolwg tywydd. Cawson ni llawer o hwyl yn dynwared bod yn sâl a chwarae rôl gyda pypedau yn y feddygfa.**

*This is the end of our term at Canolfan Gwenllian! We have been very busy developing our oracy skills and our confidence has gone through the roof! We have had lots of fun working through a variety of topics and themes. We learnt how to describe ourselves and our families, discuss the local area, and how to order and purchase food.*
*We had fun creating pizzas and we even had a go at presenting the weather. We had lots of fun pretending to be ill and performing a role play with puppets at the doctors surgery.*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 16/1/25 | Pêl-droed Chwaraeon Caerffili / *Sports Caerphilly Football* |
| 21/1/25 | Pêl-rwyd Chwaraeon Caerffili / *Sports Caerphilly Netball* |
| 24/1/25 | Disgo Santes Dwynwen / *St. Dwynwen's Disco* |
| 30/1/25 | Cystadleuaeth Athletau/*Indoor Athletics* |
| 12/2/25 | Rygbi Tag yr Urdd / *Urdd Tag Rugby* |
| 14/2/25 | Dydd Miwsig Cymru / *Welsh Language Music Day* |
| 20/2/25 | Gŵyl Nofio Chwaraeon Caerffili / Sports Caerphilly Festival of Swimming |
| 21/2/25 | Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi / *St. David's Day Celebrations* |
| 21/2/25 | Eisteddfod Ysgol / *School Eisteddfod* |